


Manylion y Defnyddiwr

Gall unrhyw un ddefnyddio Safle Mynediad Cyhoeddus IDOX heb yr angen i gofrestru ond i fanteisio ar y nodweddion proffil uwch, rhaid i chi gofrestru cyfrif defnyddiwr yn gyntaf.

Cofrestru

Mae cofrestru ar gyfer cyfrif defnyddiwr Mynediad Cyhoeddus IDOX ond yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi eich enw a'ch manylion cyswllt perthnasol.

1 I greu cyfrif defnyddiwr newydd cliciwch ar Cofrestru yn y bar dewislen.



Cofrestru

Ar ôl cofrestru gallwch wneud y canlynol:

- Olrhain ceisiadau
- Yn cadw Chwiliadau
- E-bostio hysbysiadau am geisiadau wedi'u holrhain a chanlyniadau chwiliad newydd.

Rhaid cwblhau caeau wedi eu marcio â *.

Teitl *	<input type="text"/>
Enw Cyntaf *	<input type="text"/>
Cyfenw *	<input type="text"/>
Rhif Ffôn	<input type="text"/>
Cyfeiriad e-bost *	<input type="text"/>
Cadarnhewch eich cyfeiriad e-bost *	<input type="text"/>
Rhaid i'ch cyfrinair fod o leiaf 8 nod a bod yn gymysgedd o lythrennau a rhifau.	
Cyfrinair *	<input type="text"/>
Cadarnhau Cyfrinair *	<input type="text"/>
<input type="button" value="Nesaf"/>	

2 Cofrestrwch eich manylion personol drwy lenwi'r meysydd canlynol:

- Teitl - dewiswch y teitl yr ydych am i eraill ei ddefnyddio.
- Enw cyntaf - rhowch eich enw cyntaf.
- Cyfenw - rhowch eich cyfenw.
- Cyfeiriad e-bost - rhowch eich cyfeiriad e-bost. Rhowch ef eto i gadarnhau ei fod yn gywir.
- Cyfrinair - rhowch gyfrinair a fydd yn eich galluogi chi yn unig i gael mynediad i'ch cyfrif.

Sylwer bod rhaid i gyfrineiriau fod yn wyth nod neu'n hirach, rhaid iddynt gynnwys cymysgedd o lythrennau a rhifau a rhaid iddynt beidio â chynnwys bylchau. Rhowch y cyfrinair eto isod i gadarnhau ei fod yn gywir.

3 Cliciwch ar Nesaf.

4 Rhowch eich cod post, yna cliciwch Nesaf.

Cofrestru

Cod post *

5 Dewiswch eich cyfeiriad o'r gwymplen, yna cliciwch ar Nesaf.

Cofrestru

Dewiswch eich cyfeiriad:

6 Os nad yw eich cyfeiriad wedi'i restru, dewiswch Nid yw fy nghyfeiriad yn y rhestr a chliciwch ar Nesaf.

7 Rhowch fanylion eich cyfeiriad yn y meysydd priodol, yna cliciwch ar Nesaf.

8 Cliciwch i ddarllen y Telerau ac Amodau a'r Polisi Preifatrwydd sy'n berthnasol i'r defnydd o'r safle. Pan fyddwch wedi gwneud hynny, ticiwch y blwch ticio i ddangos eich bod yn cytuno iddynt.

9 Gwiriwch fod eich manylion personol a mewngofnodi yn gywir. I'w cofrestru, cliciwch ar y botwm nesaf.

10 Mae e-bost wedi'i anfon i'r cyfeiriad e-bost y gwnaethoch ei roi. Mae hyn yn rhoi cadarnhad terfynol eich bod am greu cyfrif Mynediad Cyhoeddus IDOX. Pan fydd yr e-bost yn cyrraedd, cliciwch ar y ddolen i gael ei ddychwelyd i wefan Mynediad Cyhoeddus IDOX.

Hello Lucy Gilbert,

To confirm your registration please click the following link:

<https://nccsec.newport.gov.uk/online-applications/registrationConfirm.do?action=createUser&key=88ad20496ead73cb43c9c446598f834c>

If required you can also copy the link to the address field of your browser.

Please Logon with the username and password you originally selected.

Mewngofnodi

Er mwyn defnyddio'r ystod lawn o nodweddion a gynigir gan Fynediad Cyhoeddus IDOX bydd angen i chi fewngofnodi i'r safle gan ddefnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a ddarparwyd gennych pan gofrestrwyd eich cyfrif.

1 Cliciwch ar Mewngofnodi yn y bar dewislen.

2 Rhowch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair, yna cliciwch ar y botwm Mewngofnodi.

Wedi anghofio cyfrinair

Os ydych yn anghofio'ch cyfrinair, cliciwch ar y ddolen '**Wedi anghofio'r cyfrinair?**'.

2 Rhowch eich cyfeiriad e-bost ac yna rhowch gyfrinair newydd ddwywaith. Gwasgwch y botwm **Newid Cyfrinair**

3 Caiff e-bost cadarnhau ei anfon i'ch cyfeiriad e-bost. Pan fydd yn cyrraedd, cliciwch ar y ddolen gadarnhau. Byddwch nawr yn gallu mewngofnodi gyda'ch cyfrinair newydd.

Allgofnodi

Pan fyddwch chi wedi gorffen yn defnyddio Mynediad Cyhoeddus IDOX, cofiwch allgofnodi drwy glicio ar y botwm Allgofnodi yn y bar dewislen.

Fy Mhroffil

Ar ôl i'ch cyfrif gael ei greu, gallwch gael mynediad i'ch ardal Fy Mhroffil. Mae'r ardal hon yn eich galluogi i ffurfweddu eich manylion personol yn ogystal â rheoli eich chwiliadau a'ch ceisiadau.




- **Manylion Proffil** - eich manylion personol llawn
- **Chwiliadau Wedi'u Cadw** - rhestr o chwiliadau yr ydych wedi eu harbed
- **Ceisiadau Hysbysedig** - hysbysiadau bod ceisiadau yr ydych yn eu tracio, neu sy'n destun chwiliadau a gadwyd, wedi eu haddasu
- **Ceisiadau Wedi'u Tracio** - rhestr o geisiadau rydych wedi'u dewis i'w Tracio.

Manylion proffil

Mae'r tudalennau Manylion Proffil yn eich galluogi i weld a diweddarau manylion eich cyfrif.

1 Dewiswch **Manylion Proffil** o'r gwymplen Fy Mhroffil yn y bar dewislen.

Fy Mhroffil – Manylion Proffil

Manylion Proffil	Cadw Chwiliadau	Ceisiadau a Hysbyswyd	Ceisiadau wedi'u Holrhain
  			
Enw	Mrs Lucy Gilbert		
E-bost	lucy.gilbert@newport.gov.uk		
Rhif Ffôn			
Cyfeiriad	Civic Centre Godfrey Road Newport South Wales NP20 4UR		
Rhodddwyd Cydsyniad RhDDC	19/05/2020 yn 13:08		

Mae'r dudalen Manylion Personol yn eich galluogi i weld y manylion a gofrestrwyd gennych. Gallwch newid unrhyw rai o'r manylion hynny neu ddiweddarau eich cyfrinair.

2 I ddiweddarau eich cyfrinair cliciwch ar **Newid Cyfrinair**.

3 Rhowch eich cyfeiriad e-bost ac yna rhowch gyfrinair newydd ddwywaith.

4. Gwasgwch y **botwm Newid Cyfrinair**. Caiff e-bost cadarnhau ei anfon i'ch cyfeiriad e-bost. Pan fydd yn cyrraedd, cliciwch ar y ddolen gadarnhau. Byddwch nawr yn gallu mewngofnodi gyda'ch cyfrinair newydd.

5 I newid eich manylion cliciwch ar Diweddarau Manylion Personol. Newidiwch eich manylion fel bo'r angen, cliciwch ar y botwm Nesaf i fynd drwy dudalennau'r adrannau.

6 Pan nad ydych am ddefnyddio Mynediad Cyhoeddus IDOX mwyach, cliciwch ar **Dilue Proffil**.

Chwiliadau Wedi'u Cadw

Y prif weithgarwch ar safle Mynediad Cyhoeddus IDOX yw gwneud chwiliadau am wybodaeth. Gellir arbed chwiliadau a fydd yn cael eu perfformio'n aml fel y gellir eu hailadrodd yn hawdd mor aml ag y dymunwch (gweler "Chwilio" ar dudalen 13).

Bydd unrhyw newidiadau i statws ceisiadau a ganfuwyd yn flaenorol gan eich meini prawf chwilio neu unrhyw geisiadau newydd sy'n cyfateb i'r meini prawf chwilio a gadwyd yn sbarduno hysbysiad. Rhestrir yr hysbysiadau yn y dudalen Ceisiadau Hysbysedig.

1 I weld eich **Chwiliadau Wedi'u Cadw** a gadwyd, dewiswch Chwiliadau Wedi'u Cadw o'r gwymplen Fy Mhroffil.

Fy Mhroffil – Golygu Chwiliad a Gadwyd

[Help gyda'r dudalen hon](#)

Manylion Proffil	Cadw Chwiliadau	Ceisiadau a Hysbyswyd	Ceisiadau wedi'u Holrhain	
Rhedeg	Golygu	Dileu	Teitl Chwiliad	Math o Chwiliad
			"*high street*" Planning Application 12-Jun-2020 2:54 PM	Application
			"*commercial road*" Planning Application 12-Jun-2020 2:56 PM	Application
			"*town hall*" Planning Application 12-Jun-2020 2:57 PM	Application

2 Gallwch chi drefnu'r rhestr drwy glicio ar y penawdau colofn priodol:

- **Teitl y Chwiliad** - Trefnwch y rhestr yn nhrefn yr wyddor gan yn ôl teitl chwilio
- **Math y Chwiliad** - trefnwch y rhestr yn nhrefn yr wyddor gan yn ôl teitl chwilio.

3 I wneud chwiliad wedi'i gadw nawr, cliciwch ar y botwm Rhedeg ar gyfer y chwiliad hwnnw.

Does dim modd rhedeg chwiliadau Map Cylchol o'r dudalen Chwiliadau Wedi'u Cadw.

4 I addasu'r meini prawf chwilio, cliciwch ar y botwm Golygu ar gyfer y chwiliad hwnnw. Mae hyn yn eich dychwelyd i'r ffurflen chwilio briodol ac yn eich galluogi i newid manylion y chwiliad.

5 i gael gwared ar chwiliad o'r rhestr, cliciwch ar y botwm **Dileu** ar gyfer y chwiliad hwnnw.

Ceisiadau Wedi'u Tracio



Ar ôl lleoli cais o ddiddordeb trwy chwilio, gallwch ddewis cadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd iddo drwy ei dracio. Dangosir y ceisiadau ar y dudalen 'Ceisiadau Wedi'u Tracio'. Pan fydd ceisiadau yr ydych yn eu tracio yn cael eu haddasu, bydd hysbysiad yn ymddangos ar y dudalen Ceisiadau Hysbysedig, a bydd e-bost yn cael ei anfon atoch.

1 I weld y ceisiadau hyn, dewiswch Geisiadau Wedi'u Tracio o'r gwymplen Fy Mhroffil.

Fy mhroffil – olrhain ceisiadau

[Help gyda'r dudalen hon](#)

[Manylion Proffil](#) [Cadw Chwiliadau](#) [Ceisiadau a Hysbyswyd](#) **Ceisiadau wedi'u Holrhain**

Gweld	Stopio olrhain	Cyfeirnod	Cyfeiriad	Math	Statws
		20/0470	Ye Old Bull Inn High Street Caerleon Newport South Wales NP18 1AE	Cais	Awaiting decision

2 Gallwch chi drefnu'r rhestr drwy glicio ar y penawdau colofn priodol:


- **Cyfeirnodau** - trefnwch y rhestr yn alffaniwmerig yn ôl cyfeirnod
- **Cyfeiriad** - trefnwch y rhestr yn alffaniwmerig yn ôl y cyfeiriad sy'n destun y cais
- **Math** - trefnwch y rhestr yn nhrefn yr wyddor yn ôl y math o gais
- **Statws** - trefnwch y rhestr yn nhrefn yr wyddor yn ôl statws y cais.

3 I weld cais wedi'i tracio, cliciwch ar y botwm Gweld ar gyfer y cais hwnnw.

4 I gael gwared ar gais o'r rhestr ceisiadau wedi'u tracio, cliciwch ar y botwm Stopio Tracio ar gyfer y cais hwnnw.

Ceisiadau Hysbysedig

Pan fydd ceisiadau sy'n destun chwiliad wedi'i gadw neu sydd ar eich rhestr Ceisiadau Wedi'u Tracio yn cael eu haddasu, bydd rhestr o'r ceisiadau hynny yn ymddangos yn y dudalen Ceisiadau Hysbysedig. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost hysbysiad.



1 I weld eich hysbysiadau, dewiswch **Ceisiadau Hysbysedig** o'r gwymplen Fy Mhroffil.

Fy Mhroffil - Ceisiadau a Hysbyswyd

[Help gyda'r dudalen hon](#)

[Manylion Proffil](#) [Cadw Chwiliadau](#) **[Ceisiadau a Hysbyswyd](#)** [Ceisiadau wedi'u Holrhain](#)

Mae'r tab hwn yn dangos rhestr o geisiadau y cawsoch eich hysbysu amdanynt. Mae dau fath o hysbysiad:

1. **Canlyniadau archwiliad newydd** - Os rydych yn arbed archwiliad ac yn dewis yr opsiwn i gael eich hysbysu o ganlyniadau newydd sydd yn perthnasol i'ch archwiliad, bydd eich archwiliad yn cael ei ail-rhedeg yn awtomatig ac byddwch yn cael eich nodi o unrhyw canlyniadau newydd.
2. **Newidiadau ceisiadau olrhain** - Os ydych yn tracio cais byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd ei statws yn newid.

2 Mae'r ceisiadau wedi'u tracio sydd wedi'u haddasu wedi'u rhestru ar frig y sgrin. Dilynyr y rhain gan y rhaglenni addasedig sy'n amodol ar eich chwiliadau wedi eu cadw.

3 I weld cais wedi'i tracio, cliciwch ar y botwm **Gweld** ar gyfer y cais hwnnw.

4 I gael gwared ar gais o'r rhestr hysbysiadau, cliciwch ar y botwm Gwaredu ar gyfer y rhaglen honno. I ddileu'r holl ganlyniadau a hysbyswyd ar gyfer chwiliad penodol, cliciwch ar **Gwaredu Holl Ganlyniadau y Chwiliad Hwn**.

5 Yn ogystal, gallwch ddewis ceisiadau chwilio wedi'u cadw o'r rhestr hysbysiadau a thracio'r rhain. Cliciwch ar yr eicon **Trac** ar gyfer y ceisiadau o ddiddordeb. Bydd y rhain nawr yn cael eu hychwanegu at eich tudalen Ceisiadau Wedi'u Tracio.